

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Hydref
2016
i'w hateb ar 19 Hydref 2016**

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gofyn i [Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#)

1. [Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wariant cyfalaf diweddar awdurdodau lleol? OAQ(5)0042(FLG)

2. [Eluned Morgan \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff diffyg Trysorlys Ei Mawrhydi o £66 biliwn o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru? OAQ(5)0049(FLG)

3. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): Yn dilyn ei ddatganiad ar 11 Hydref, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa gyllid fydd ar gael ar gyfer gweddill y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd o 2014 tan 2020? OAQ(5)0034(FLG)W

4. [Rhianon Passmore \(Islwyn\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar Islwyn? OAQ(5)0047(FLG)

5. [Lynne Neagle \(Torfaen\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid llywodraeth leol yn y flwyddyn ariannol hon? OAQ(5)0044(FLG)

6. [Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyflog byw gwirioneddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(5)0037(FLG)

7. [Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith diwygio arfaethedig llywodraeth leol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(5)0041(FLG)

8. [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(5)0043(FLG)

9. [Joyce Watson \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gydweithredu ar draws awdurdodau lleol? OAQ(5)0040(FLG)

10. [Andrew RT Davies \(Canol De Cymru\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0048(FLG)

11. [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei rôl yn cadeirio'r panel cyngori allanol ar adael yr UE? OAQ(5)0036(FLG)

12. [Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bil undebau llafur? OAQ(5)0038(FLG)

13. [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau gweithlu Awdurdod Cyllid Cymru? OAQ(5)0033(FLG)W

14. [Jeremy Miles \(Castell-nedd\)](#): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Trysorlys Cymru? OAQ(5)0039(FLG)

15. [Hefin David \(Caerffili\)](#): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru? OAQ(5)0035(FLG)

Gofyn i [Gomisiwn y Cynulliad](#)

1. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): Pa ddarpariaeth y mae'r Comisiwn wedi'i gwneud ar gyfer cerbydau trydan yn y Cynulliad? OAQ(5)0001(AC)W

2. [Lynne Neagle \(Torfaen\)](#): Pa gynlluniau sydd gan y Comisiwn i ddatblygu senedd ieuencid i Gymru?? OAQ(5)0002(AC)